

© Andrew Pearson



© NBN Atlas

Pencampwr Rhywogaeth



Luke Fletcher AS
Plaid: Plaid Cymru
Bro: Gorllewin De Cymru

Mwy o wybodaeth

- www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/marine/fish-sharks-skates-and-rays/basking-shark

Prif aelod

MARINE CONSERVATION SOCIETY

Basking shark

Disgrifiad a statws

Yr heulgi yw'r ail bysgodyn mwyaf yn ein cefnforoedd, a'r siarc mwyaf ym moroedd y DU. Er gwaethaf eu maint, mae heulgwn ond yn bwydo ar sŵoplancton y maent yn ei hidlo o'r dŵr, gan nofio'n araf yn ôl ac ymlaen gyda'u cegau enfawr yn llydan agored. Maent i'w gweld amlaf rhwng mis Mai a mis Medi, gan symud yn raddol i'r gogledd i fwydo ar blancton. Mae Rhiw, Ogwr, Sir Benfro ac Ynys Môn ymhlith y lleoliadau lle gallwch weld y creaduriaid rhyfeddol hyn. Yn anffodus, mae niferoedd yr heulgwn yn gostwng, ac yn 2019 cawsant eu huwchraddio i statws 'mewn perygl' ar Restr Goch yr IUCN o Rywogaethau Dan Fygythiad.

Bygythiadau

Mae heulgwn yn hirhoedlog, yn tyfu'n araf ac ond yn cynhyrchu rhai epil. Mae hyn yn eu gwneud yn agored iawn i effeithiau dynol.

- Sgil-ddalfa – gall siarcod gael eu dal yn ddamweiniol mewn rhwydi pysgota a rhaffau pot.
- Mae cael eu taro gan siafftiau gyrru a chychod yn berygl difrifol i heulgwn, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf pan fyddant yn bwydo ar yr arwyneb. Anaml y bydd heulgwn yn osgoi cychod sy'n dod.
- Mae heulgwn yn sensitif iawn i aflonyddwch gan bobl. Yn yr holl gyffro o weld heulgwn, mae cychod a jet-sgis yn aml yn eu taro. Yn ogystal ag achosi niwed corfforol, gall bobl yn y dŵr hefyd darfu ar eu hymddygiad naturiol megis bwydo, paru ac atgenhedlu.

Gweithredu angenrheidiol

- Pysgodfeydd wedi'u dogfennu'n llawn o'r holl weithgarwch pysgota yn nyfroedd Cymru – gan gynnwys yr hyn a wneir gan gychod tramor. Bydd adrodd ar sgil-ddalfeydd yn helpu i hysbysu ble, a pha fathau o offer, y bydd angen mesurau rheoli newydd arnynt o dan y Ddeddf Pysgodfeydd.
- Hyrwyddo Codau Morol (fel y rhai yng Ngwynedd, Ceredigion a Sir Benfro) i holl ddefnyddwyr cychod a'r cyhoedd, er mwyn lleihau aflonyddwch a sicrhau nad yw rhyngweithiadau dynol yn achosi straen diangen.
- Cefnogi cynllunio morol effeithiol sy'n cefnogi cydlyniad y rhwydwaith MPA, a lleihau pwysau cyfunol gweithgareddau lluosog ar y rhywogaeth hon.

Cyswllt Amgylchedd Cymru (Elusen Gofrestredig.1022675) © 2022 Cyswllt Amgylchedd Cymru



© Andrew Pearson



© NBN Atlas

Species Champion



Luke Fletcher MS
Party: Plaid Cymru
Region: South Wales West



More information

- www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/marine/fish-sharks-skates-and-rays/basking-shark

Lead member

MARINE CONSERVATION SOCIETY

Basking shark

Description and status

The basking shark is the second largest fish in our oceans, and the largest shark in UK seas. Despite their size, basking sharks only feed on zooplankton which they filter out of the water, swimming slowly back and forth with their enormous mouths wide open. They are most commonly seen between May and September, moving gradually north to feed on plankton. Rhiw, Ogmore, Pembrokeshire and Anglesey are just some of the locations you can see these amazing creatures. Sadly, basking sharks are in decline, and in 2019 were upgraded to 'endangered' on the IUCN Red List of Threatened Species.

Threats

Basking sharks are long lived, slow growing and produce few young. This makes them extremely vulnerable to human impacts.

- Bycatch; the sharks can be accidentally caught in fishing nets and pot ropes.
- Propeller and boat strikes are a serious danger to them, particularly in the summer months when they're feeding at the surface. Basking sharks rarely evade approaching boats.
- Basking sharks are very sensitive to disturbance and harassment by people. In all the excitement of seeing the sharks, boats and jet-skis often end up striking them. As well as causing physical harm, water-users can also disrupt their natural behaviour such as feeding, courting and mating.

Actions required

- Fully documented fisheries of all fishing activity in Welsh waters – including that undertaken by foreign vessels. Reporting bycatch will help inform where, and what gear types, will need new management measures under the Fisheries Act.
- Promoting Marine Codes (such as those in Gwynedd, Ceredigion and Pembrokeshire) to all boat users and the public, in order to reduce disturbance and ensure human interactions do not cause unnecessary stress.
- Support effective marine planning that support the coherence of the MPA network, and reduce the collective pressure of multiple activities on this species.

Wales Environment Link (Charity No.1022675) © 2022 Wales Environment Link